Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Pwyllgor Moeseg a Safonau

Cais am Ollyngiad

Mynychu mewn person

Paratowyd y nodyn hwn er mwyn cynorthwyo Aelodau sydd yn dymuno bod yn bresennol mewn person mewn Pwyllgor Moeseg & Safonau er mwyn cyflwyno cais am ollyngiad.

(1) **Gweithdrefn**

(a) Mae'n rhaid cwblhau ffurflen cais am ollyngiad a'i chyflwyno i'r gwasanaeth Moeseg a Safonau a'r/neu'r Swyddog Monitro cyn y cyfarfod ym mhob achos, boed yr Aelod yn bresennol yn y cyfarfod ai peidio.

(b) Yn y cyfarfod gwahoddir yr Aelodau sy'n Ymgeisio i gyflwyno eu cais i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau gan y Cadeirydd.

(c) Gall Aelodau o'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r Aelod sy'n Ymgeisio er mwyn egluro unrhyw faterion sydd yn ymwneud â'r cais.

(d) Ni chaniateir i Aelodau sy'n Ymgeisio i ofyn cwestiwn i'r Pwyllgor.

(e) Gofynnir i Aelodau sy'n Ymgeisio i gyfyngu eu cyflwyniad i 5 munud, ar y mwyaf.

(f) Ar ôl cyflwyno'r cais ac ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor (os o gwbl), mae'n rhaid i Aelodau sy'n Ymgeisio i adael ystafell y cyfarfod ac aros allan tra bod y Pwyllgor yn cynnal trafodaethau.

(g) Yna, bydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniad ar y cais.

(h) Ni fydd Aelodau sy'n Ymgeisio yn cael eu galw yn ôl i'r cyfarfod i gael eu hysbysu o'r penderfyniad.
Bydd Aelodau sy'n Ymgeisio sy'n aros tan i'r cyfarfod ddod i ben gael eu hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor mewn person gan y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Safonau.
Bydd yr Aelod sy'n Ymgeisio nad ydynt yn aros tan ddiwedd y cyfarfod yn cael eu hysbysu o'r canlyniad yn ysgrifenedig.

(2) Nid yw'n ofynnol i aelodau fynychu'r cyfarfod mewn personol a gallant barhau i ddefnyddio'r ffurflen Cais am Ollyngiad yn unig, os ydynt yn dymuno.

(3) **Ceisiadau Niferus Tebyg**

- Mewn achos lle bod nifer yr Aelodau sy'n Ymgeisio wedi ymgeisio am ollyngiad mewn perthynas â'r un mater lle bo cynnwys ffeithiol y ceisiadau yn aml wedi'u dyblygu, gellir gwneud trefniadau bod pob aelodau sy'n dymuno siarad am eu cais eu hunain wneud hynny yn unigol ar ddechrau'r eitem.
- Yn Dilyn unrhyw gwestiynau wrth y Pwyllgor I Aelodau unigol sy'n Ymgeisio, bydd yr holl Aelodau sy'n Ymgeisio yn gadael y cyfarfod (yn unol â pharagraff f) uchod).
- Bydd gweddill y weithdrefn yn cael eu rhedeg yn unol â pharagraffau g) a h) uchod.

(4) Gall methu â chydymffurfio gyda'r weithdrefn hon effeithio ar allu'r Pwyllgor i wneud penderfyniad amserol a therfynol.

(5) **Gwybodaeth / Arweiniad Pellach**
Os oes gan Aelodau unrhyw ymholiadau pellach sy'n ymwneud â'r weithdrefn uchod, ni ddylent oedi i gysylltu â'r Swyddog Monitro neu'r Swyddog Safonau.

16/5/25